

Open workshop - Eira Hughes

Bryn Y Beili

Lle ceffylau, ceirw, castell - gwylfryn trais ar lannau'r Alyn
Esgyrn y gelyn yn frith a dwfn - o dan ein tŵr a'i dirlun.

Bailey Hill (English version)

Site of stallions, stags and stronghold - violent watch-tower on the Alyn,
Mottled enemy bones lie deep - below our tower and our landscape.

Bryn Y Beili

Tra bo Bryn uwchben yr afon,
Tra bo plant yn creu atgofion,
Tra bo hanes yn dra chreulon -
Cadwaf fwnt a beili'r meirwon.

Bailey Hill (English version)

While the Hill stands over the river,
While children make memories,
While history remains so cruel -
We'll keep the lost ones' motte and bailey.

Sŵn Bryn Y Beili

Taro'r cnocell, sboncio'r 'sguthan,
Gwiwerod llwyd yn brwydro'r ywen,
Cyfarthiad, clebran, cacwn - taran:
Bydd brain ar chwâl, yn cofio'r waedlan.

The Sounds of Bailey Hill (English version)

Sound of woodpecker, sweep of pigeon,
Grey squirrels squabbling in the yew trees,
Barking, croaking, buzzing - then thunder:
The crows disperse, recalling bloodshed.

Bryn Y Beili - Trwy'r Oeseoedd

Os gofynnwch i mi -
Fe safodd rhywun yma ar hwn, o'r Dadmer Mawr hyd heddiw - yn driw, a phryder yn ei chalon,
Yn syllu, dros linell gul yr Alyn: sbïo ar lwythau, mwynau, milwyr, mawrion
Powys, a'r holl dywydd;
Y cloddiau hir, a'r waldio di-ddiwedd, ar ein gorwel: ac undod prin yng Nghymru, gwaith ein Gruffudd.
Yna'n rhedeg rhag y Ffrancwyr barus, ac aros yn y llwyni am ddynion
Gwynedd i ymddangos:
Rhew yn eu gwen hwythau hefyd; baw ar ei ceffylau; llygaid fel y llechi.
 Brwydro, brwydro, a brwydro eto....
 yn ddi-derfyn, yn ein cwmwd ni.

Maent yma, i gyd, wrth gwrs – y meirw a'r ceirw, yr iwrch a'r ychen, cesig, stalwyn;
Sgerbydau o'r blynyddoedd pell, yn dod i'r wyneb nawr: yn gweiddi -
'Gwyliwch, ferch! Mae angen gofal.'
Ysbrydion blin, a lyfant hen raffau yn y gwynt, yn erbyn y coed ffawydd tal, ar ein Bryn.
Beth wedyn? Dewch nôl yfory –
 Bydd eirlysiau, cennin Pedr, a saffrwm - ein heli pêr - yn dawnsio ar y lawntiau hyn.

Bailey Hill - Through The Ages

If you ask me -
Someone faithful always stood here - from the Ice Age onwards, with care in her heart,
Looking over the narrow Alyn; watching, in all weathers: tribes, minerals, soldiers, the great men of Powys;
Long dykes and endless battles on our horizon: and rare unity in Wales, our Gruffudd's work.
Then, fleeing the greedy Norman-French, waiting in the groves for the men of Gwynedd to appear.
Ice in their smiles too; mud on their horses; eyes cold as slate.
 Battles, battles, battles....
 Without end, in our commote.

They are here still, of course - the dead and the deer, roebuck and cattle, stallion and mares;
Skeletons from ages past, still surfacing: shouting –
'Keep watch, girl! This needs good care.'
Angry spirits lick old ropes in the wind, by tall beech-trees, on our Hill.
What next? Come back tomorrow -
 There will be daffodils, snowdrops and saffron - our sweet salve - dancing on these lawns.